



YSGOL BRO HYDDGEN

Tel: (01654 70 4200)

Ffacs: (01654 70 2994)

E-bost: office@brohyddgen.powys.sch.uk

Gwefan: www.brohyddgen.powys.sch.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.

16 Tachwedd 2018

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Hoffwn dynnu eich sylw at rai materion:

Trefniadau Parcio a Gollwng Plant ar Ddechrau a Diwedd y Dydd

Yn enw diogelwch pob plentyn caiff y giat fawr i mewn i'r ysgol ei chau am 8.50 – 9.00am. **Ni ddylid agor y giat yn ystod y 10 munud hwn.** Yn yr un modd caiff y giat fawr ei chau ar ddiwedd y dydd a chaiff ei hailagor **ar ôl** i'r plant gael eu hebrwng at eu rhieni. Gofynnwn yn garedig i chi barchu hyn ac i gymryd pwyll wrth barcio a gyrru yng nghyffuniau'r ysgol.

Diogelwch ar Lein

A hithau'n **Wythnos Gwrh Fwlio** mae'n briodol i mi dynnu eich sylw at ganllaw newydd sydd wedi ei baratoi gan Lywodraeth Cymru i rieni ynglŷn â diogelwch ar lein. Gweler:

<https://brohyddgen.cymru/index.php/esafety/?lang=cy>

Carwn eich atgoffa hefyd am y cyfyngiadau oed ar gyfer llwyfannau cymdeithasol.

Barddoniaeth i Gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Cadoediad

Mae dosbarth Helygen wedi bod yn brysur yn cyfansoddi barddoniaeth i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Cadoediad. Gallwch weld yn cerddi ar wefan yr ysgol yn:

<https://brohyddgen.cymru/index.php/2018/11/15/2208/?lang=cy>

Gan ddiolch i chi am eich cydweithreid a'ch cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir

Haf ap Robert

Pennaeth Cynorthwyol

